Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Athro ADDLl**

**Lleoliad:** **Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm**

**Cyfarwyddiaeth:** **Addysg**

**Cyflog:** **Prif Raddfa Gyflog (MPS) - Graddfa Gyflog Uwch (UPS) Athrawon ac AAA 1**

**Oriau:** **Llawnamser - Parhaol**

**Dyddiad Cychwyn:** **Medi 2025**

**Hysbyseb Lawn**

Ydych chi'n angerddol am drawsnewid bywydau myfyrwyr ag ADDLl?

Yn Ysgol Pen-y-Cwm rydym yn gyffrous i gynnig cyfle ffyniannus i Athro ADDLl (Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog) hawddgar a phrofiadol.

Fel Athro ADDLl, byddwch yn gyfrifol am gyflwyno cwricwlwm wedi'i deilwra i fyfyrwyr ag anghenion dysgu cymhleth, y mwyafrif ohonynt â symudedd sylweddol is neu'n methu â symud heb gymorth. Byddwch yn chwarae rhan allweddol mewn creu amgylchedd dysgu cynhwysol a meithringar sy'n cefnogi anghenion addysgol, corfforol a synhwyraidd unigol pob dysgwr.

**Cyfrifoldebau Allweddol Athro ADDLl:**

- Cynllunio a chyflwyno gwersi difyr, amlsynhwyraidd sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag ADDLl
- Gweithredu Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU) i gefnogi cynnydd dysgwyr
- Gweithio'n agos gyda chynorthwywyr addysgu, therapyddion, a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu ymagwedd gyfannol at ddysgu
- Defnyddio cyfleusterau arbenigol, gan gynnwys pwll hydrotherapi a theclynnau codi, i gynorthwyo symudedd a datblygiad corfforol myfyrwyr
- Meithrin cyfathrebu a rhyngweithio gan ddefnyddio technolegau cynorthwyol, Eye-Gaze, PECS, Makaton, neu ddulliau perthnasol eraill
- Darparu gofal bugeiliol a chefnogaeth emosiynol, gan sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol
- Ymgysylltu â theuluoedd a gofalwyr, gan gynnal perthnasoedd cryf i gefnogi cynnydd dysgwyr
- Cynnal cofnodion ac asesiadau cywir, gan sicrhau cydymffurfedd â pholisïau ac arferion gorau'r ysgol

**Gofynion Athro ADDLl:**

- Mae Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn hanfodol
- Profiad profedig o weithio gyda myfyrwyr ADY, yn enwedig y rhai ag ADDLl neu anghenion cymhleth
- Cefndir cryf mewn addysg Blynyddoedd Cynnar, yn ddelfrydol mewn lleoliad ADY

- Bod yn gyfarwydd â hydrotherapi, dysgu synhwyraidd, a strategaethau cymorth symudedd
- Mae profiad o ddefnyddio offer cyfathrebu cynyddol ac amgen (AAC) yn ddymunol
- Dull addysgu tosturiol, amyneddgar a hyblyg
- Y gallu i gydweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol
- Bod â DBS manylach wedi'i gofrestru ar gyfer Gweithlu Plant ac Oedolion neu fod yn hapus i wneud cais am un

Sylwer bod y rôl hon yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth gref o ddiogelu ac amddiffyn plant a bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fodloni pob gwiriad recriwtio mwy diogel cefndirol; gan gynnwys darparu tystysgrif DBS manylach ar ôl cwblhau cais am wiriad newydd.

Ymunwch â ni fel Athro ADDLl a helpwch i siapio dyfodol ein dysgwyr!

**Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.**

**Dyddiad Cau: Dydd Llun, 12fed o Fai 2025 – 5pm**

**Llunio rhestr fer: Dydd Mercher, 14eg o Fai 2025**

**Cyfweliadau: Dydd Mercher, 21ain o Fai 2025**